

sef Humphrey Davies Roberts a oedd, erbyn 1833, yn gyfreithiwr.

Ymhen blynnyddoedd wedi i Mary Hannah farw ailbriododd Thomas Evan. Y tro hwn priododd Mrs. John Jones, Llwyn Onn, Ynys Môn, sef Martha Edith Thomas, merch Wiliam Thomas, Aberystwyth. Ym Maes yr Hedydd, yn y dref yr oeddynt yn byw.

Teithiodd Thomas Evan Roberts yn helaeth. Bu yn Unol Daleithiau America, a Chanada, crwydrodd ledled Iwrop, ac i'r Aifft a Phalestina. Pan ddathlodd Siloh ei Jiwibili yn y flwyddyn 1913 aeth ati i ysgrifennu llyfr a roddai hanes yr Achos yno o'i ddechreuad. Bu farw fore Sul, Mawrth 19, 1933 ac fe'i claddwyd y dydd Mercher canlynol ym Mynwent Aberystwyth. Cyhoeddodd ddeuddeg llyfr i gyd. Yn eu plith y mae esboniadau crefyddol a llyfrau teithio, sy'n cynnwys *Jerusalem: Y Ddinas Sanctaidd*, a gyhoeddwyd gan W.

G.Evans, Caernarfon yn y flwyddyn 1904.

Y clasur hwn oedd rhagflaenydd llyfrau eraill yn y Gymraeg sy'n ymwneud â Phalestina a Chaersalem. Gosododd y sylfeini ar gyfer y dyfodol. Mae'n haeddu ei alw'n glasur, ond hwyrach y byddwch yn dadlau fel arall. Yr unig beth a dd'wedaf yw ei fod acw ar y silff ers dwy genhedlaeth, a'r un yw'r wefr wrth droi ei dudalennau, gan wybod fod rhai o'r teulu wedi gwneud hynny'n ogystal mewn amseroedd ac amgylchoedd gwahanol.

Llyfryddiaeth ddetholedig THOMAS EVAN ROBERTS (1857-1933)*

BYWGRAFFYDDOL

1. MEE, Arthur (Gol.). *Who's Who in Wales*, 1920. Caerdydd: Western Mail, 1920 t.418.
2. Eglwys Methodistiaid Calfinaidd Cymru. *Y Blwyddiadur am y flwyddyn 1934*. Caernarfon: Llyfrfa'r Cyfundeb, 1934 tt.199-200.
3. PRICE, W.W. (Gol.). *The biographical index of W.W. Price, Aberdâr, Cyfrol 24*, (a

atgynhyrchwyd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru Aberystwyth) t.281.

4. MORRIS, Richard. Y Parch. T.E.Roberts, M.A., Aberystwyth. *Llywydd Cymdeithasfa'r De. Y Drysorfa Hydref 1925* tt.361-363; ff.d./g.
5. Parch.T.E. Roberts. Marw Gweinidog Adnabyddus. *Baner ac Amserau Cymru* Mawrth 21, 1933 t.5 col.3.
6. Marw y Parch.T.E.Roberts. Atgof am hen gweryl. Tynnu pyrth mynwent. *Y Cymro* Mawrth 25, 1933 t.9. col.4.
7. Marw Gweinidog. Y Parch.T.E. Roberts. *Herald Cymraeg* Mawrth 27, 1933 t.6. col.2.

LLYFRAU Thomas Evan Roberts: 1900-1901

8. *Efengyl Ioan. Pen. I - VIII, Ebrill 1900 - Mawrth 1901*. Caernarfon: D.O'Brien Owen, 1900.
9. *Efengyl Ioan. Pen. IX - XXI, Ebrill 1901 - Mawrth 1902*. Caernarfon: D.O'Brien Owen, 1901.
10. *Gwerslyfrau ysgrythyrol. Efengyl Ioan, 2 gyfrol*. Caernarfon: D.O'Brien Owen, 1900-1901.
11. *St. John's Gospel. Lesson Book. 2 gyfrol*. Caernarfon: D.O'Brien Owen, 1900 1901.
12. *Jerusalem: Y Ddinas Sanctaidd*. Caernarfon: W.G. Evans, 1904.
13. *The Calvinistic Methodist Sunday School Union: the third grade lesson*

book: standard VIII and IX. Caernarfon: Ystafell Lyfrau Cyfundebol, 1909.

14. *Holwyddoreg ar hanes Daniel*. Caernarfon: D. O'Brien Owen: Llyfrfa'r Cyfundeb, 1909.
15. *Holwyddoreg ar hanes y Tri Llang a'r Gaethglud Babilonaidd*. Caernarfon: Llyfrfa'r Cyfundeb, 1909.
16. *Lleoedd Cysegredig Palestina a Syria*. Caernarfon: D. O'Brien Owen, 1909?
- 1913
17. *Jiwibili Siloh, Aberystwyth, Gwanwyn 1913 - hanner can mlynedd o hanes y Methodistiaid yn Aberystwyth*. Yr Eglwys, 1913; argraffwyd yn Swyddfa'r 'Welsh Gazette'.
18. *The Jubilee of the Welsh Sunday Closing Act, 1851-1931*, 1931.
- 1933
19. *Palestina hen a newydd*. Llundain: Gwasg Gymreig Foyles, 1933.
- GWEITHIAU ERAILL (GAN)**
20. Rhesymeg (yn) *Cofnodion a Chyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1886* tt. 128 -184.

*** Dymunir diolch i'r canlynol am eu cymorth parod : I. Hawys Davies, Adran Lyfrau Printiedig; Douglas Jones. Cynorthwy-ydd Catalogio Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; Archifdy Meirion, Cae Penarlâg, Dolgellau.

Teulu'r Mynydd

Parhad o dudalen 11

sidan a chopr ym Macclesfield, oedd y cyntaf i gloddio'n llywyddiannus ar ôl 1768 ar dir yn perthyn i Blas Newydd, a theulu'r plas hwnnw hefyd yn gymeriadau pwysig ar y mynydd, yn enwedig yng Nghwmni Mwynglawdd Mona, eto gyda Thomas Williams. Y pedwerydd grŵp oedd Y Mwyngloddwyr medrus o Gernyw, a thua'r diwedd Treweek oedd y gweithiwr pwysicaf yn y gweithfeydd mwyngloddio, mwynoddi a masnachu yn Amlwch. Nid ymhlith y mawrion ond yr oedd fy ngor-hendaid, David Owen, yn fwyndodwr pump ar hugain oed ar y mynydd, yn 1821 mi gredaf, ac y mae'n bosibl y byddai wedi ymuno yn y dathlu, er nad oedd y berthynas rhwng y toddwyr a'r rheolwyr yn esmwyth bob amser! Hwyrach iddo ddysgu ei grefft dan y toddwyr Cymreig Morgan a Rees.

Wrth gwrs nid cydraddolion a chyflogwyr teg yn yr ystyr fodern oedd yr hen uchelwyr, a hwyrach mai eu gwagedd oedd yn pennaf hybu elusengarwch. Digon llwm oedd bywyd gweithiwr Amlwch hyd yn oed yn y dyddiau gorau, ac yn nes ymlaen llwm hefyd oedd cartrefi a bywyd gweithiwr a thyddynwyr ar lethrau Bryn Moelfre Isaf (cysylltiad arall â Môn) ar gyfer yn stad rhyw filltir i'r de-orllewin o Neuadd Kinmel a phentref Sant Siôr. Cofir o hyd y dauddegau pan oedd y plant yn saliwio'r hen Gyrnol a berthynai i fydw gwahanol i'r Cymry tlawd, ac

ymneilltuol o ran crefydd, er eu bod yn gwerthfawrogi ei anrhegion a'r partion yn yr awyr agored neu yn Ysgol Sant Siôr. Yr oedd yna bwt hefyd yn y *Gazette* yu 1821 yn dangos caledi'r werin wrth sôn am ferch ifanc yn Glasgow yn gwerthu ei phedwar dant blaen i gael arian i dalu am wisg briodas addas! Er hyn i gyd cefais ar ddeall bod gair da i'r teulu yn y gogledd-ddwyrain ac nad anghofir i'r Cynol William Hughes A.S., fel tîrfeddiannwr lleol, bledio achos chwarelwyr Rhostryfan, Arfon, a oedd wedi codi tai ar dir comin, yn ystod dadl yn y Senedd yn 1826 ynglŷn â Deddfau Cau'r Tir.

Rhestr Llyfryddiaeth

- '*The Hughes of Kinnel*' - Elaine Bloxham
'*Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire*' - J.E. Griffiths
'*The Day before Yesterday*' - E.A. Williams (Trosiad o 'Hanes Môn yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg')
'*Copper Mountain*' - John Rowlands
'*Industrial Revolution in N. Wales*' - A.H. Dodd
'*Portraits of an Island - 18th Century Anglesey*' - Helen Ramage
'*Trafodion Hynafiaethwyr Môn*' (e.e. Llanwenllwyfo Churches - Eryl Wyn Rowlands)
'*A Curious Place - Industrial History of Amlwch*' - Bryan D. Hope
'*Stained Glass of St. Gwenllwyfo Church*' - J.O. Hughes.
'*Family Papers - Kinnel and Llys Dulas*' - University of Wales Library, Bangor.
'*North Wales Gazette*', *North Wales Chronicle*, *Carnarvon Herald*.
John Pilling, Llanfairfechan - *Rock Cannons* (lecture)
'*Helynt Coed y Gell*' - G. Wynne Griffiths (stori i blant wedi ei seilio yn ardal Llys Dulas, adeg Napoleon).



Cymdeithas

Carnhuanawc

Annwyl Ddarllenwyr

'Dyn o flaen ei amser' dyna'r disgrifiad roddwyd i Garnhuanawc (Y Parch Thomas Price) pan fu farw ar y 7ed o Dachwedd 1848. Treuliodd Carnhuanawc ei fywyd yn ymgyrchu dros yr iaith Gymraeg. Beirniadwyd ef yn *Y Llyfrau Gleision* am ei frwdfrydedd dros ddysgu'r iaith. Pryderai ynglŷn â'r dirywiad yn y defnydd o'r Gymraeg yn ysgolion ei ardal a sefydlodd, tra'n gurad ym Melindre Cwm-du, Brycheiniog, ysgol ble rhoed i'r Gymraeg ei phriod le. Taranai Carnhuanawc yn erbyn penodi clerigwyr di-Gymraeg i blwyfi Cymraeg eu hiaith.

Rhwng 1836 a 1842 cyhoeddwyd ei lyfr '*Hanes Cymru*', llyfr y bu bri mawr arno ar y pryd. Roedd Carnhuanawc yn ymgyrchydd heb ei ail dros 'Y Peth'. Chwaraeodd ran allweddol mewn sefydlu eisteddfodau drwy Gymru. Cynorthwyodd Charlotte Guest i gyfieithu'r Mabinogi i'r Saesneg ac roedd yn ffrind agos i Arglwyddes Llanofar a hi a'i helpodd i sefydlu Cymdeithas Cymreigyddion Y Fenni yn 1833.

Ymboenai am ddiwylliant Cymru. Sefydlodd Gymdeithas Lawysgrifau Cymru, rhagflaenydd Y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Gydol ei oes bu ganddo ddiddordeb yn llen gwerin Cymru, ei dawnsfeydd gwerin ac yng nghanu'r delyn. Arweiniodd yr olaf tuag at sefydlu Cymdeithas Alawon Cymru.

Bu creu cysylltiadau â'i gyd-Geltiaid ymysg ei amryw weithgareddau. Ymddiddorai'n fawr ym myd natur ac roedd ei wybodaeth am blanhigion ac anifeiliaid yn eang a mynnai ddefnyddio eu henwau Cymraeg.

Mae Carnhuanawc wedi ei anghydnwyllyddu ym mynwent Eglwys Cwm-du. Hoffem fel Cymdeithas arhlyddu ei gyfraniad i Gymru, ei hiaith a'i diwylliant drwy ail lythrennu ei garreg fedd. Hyderwn y gallwch wneud cyfraniad ariannol tuag at yr apêl hon.

Yn ddiffuant

Alan Jobbins

Ysgrifennydd, 47 Wingfield Road, Eglwys Newydd, CAERDYDD CF14 1NJ

(Ffôn: 029 20 623275) carnhuanawc@onetel.net.uk